



26.05.21

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Gobeithio eich bod chi i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Dyma'r diweddariadau cyfredol o'r ysgol.

Wythnos Ysgolion Iach

Yn syth ar ôl hanner tymor byddwn yn cynnal wythnos 'Ysgolion Iach'. Bydd pob disgybl yn weithgar ddydd Llun, Mercher, Iau a Gwener mewn amrywiol weithgareddau a chwaraeon. Gofynnir i ddisgyblion wisgo cit Addysg Gorfforol i'r ysgol ddydd Llun, dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener yr wythnos hon ond nid ddydd Mawrth 8 Mehefin oherwydd ffotograffau dosbarth (gweler isod). Yn ystod wythnos 'Ysgolion Iach' rydym hefyd yn annog disgyblion a rhieni i gerdded, beicio neu sgwter i'r ysgol os ydych yn byw yn lleol ac mae'n ddiogel gwneud hynny. Darperir storfa feiciau / sgwteri diogel; rhowch wybod i'r swyddfa ymlaen llaw os ydych chi'n bwriadu gadael beic / sgwter eich plentyn yn yr ysgol yn ystod yr wythnos hon. Yn dilyn adborth gan rieni, nodwch ein bod yn bwriadu lleoli ardal storio beiciau barhaol yn yr ysgol fel rhan o'n cynlluniau datblygu awyr agored parhaus yn y dyfodol agos.

Ffotograffau Dosbarth

Bydd ffotograffydd yr ysgol yn mynychu'r ysgol ddydd Mawrth 8 Mehefin i dynnu lluniau dosbarthiadau. Gwisg ysgol lawn ar gyfer y lluniau dosbarth os gwelwch yn dda, lle bo hynny'n bosibl.

Pontio Blwyddyn 6

Mae holl ddisgyblion Blwyddyn 6 bellach wedi mewngofnodi ac wedi mynedu eu cyfrif Google Classroom sy'n gysylltiedig ag YGG Llangynwyd. Mae gwasanaeth dros Dimau Microsoft wedi'i drefnu ar gyfer dydd Gwener 11 Mehefin ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 gyda Mr Owain Tudur (arweinydd Blwyddyn 7). Bydd yr ysgol yn gofyn i ddisgyblion anfon cwestiynau at Mr Tudur ynghylch eu trosglwyddiad i Langynwyd. Yna bydd cyflwyniad fideo yn cael ei greu gan Mr Tudur i ateb yr holl bwyntiau a godwyd. Bydd Mr Tudur a Mrs Woodrow hefyd yn mynychu YG Bro Ogwr i gwrdd â'r disgyblion yn bersonol yn ddiweddarach yn y tymor i drafod eu trosglwyddiad i YGG Llangynwyd ymhellach a byddant yn darparu pecyn trosglwyddo i'w paratoi ar gyfer mis Medi. Yma ym Mro Ogwr rydym yn cwblhau trefniadau ar gyfer ffarwelio diwedd ysgol gynradd â'n disgyblion Blwyddyn 6 a darperir manylion cyn gynted â phosibl i rieni / gofalwyr Blwyddyn 6.

Stopio / parcio y tu allan i dir yr ysgol

Er mwyn sicrhau man diogel i deuluoedd sy'n agosáu at safle'r ysgol, gofynnwn i rieni / gofalwyr ymatal rhag stopio ar y marciau sydd yn uniongyrchol y tu allan i giât yr ysgol a pharhau i barcio'n gyfreithlon ac yn ddiogel wrth barcio y tu allan i dir yr ysgol, gan barchu unrhyw farciau ffordd a chyffyrdd.

Dyddiadau ar gyfer y Calendr

Llun 31 Mai – Gwener 4 Mehefin:	Hanner Tymor
7,9,10,11 Mehefin (nid dydd Mawrth):	Gweithgareddau Wythnos Ysgolion Iach (disgyblion i wisgo cit YC)
Mawrth 8 Mehefin:	Ffotograffau Dosbarth (gwisg ysgol llawn os gwelwch yn dda)
Gwener 16 Gorffennaf:	Diwrnod Olaf i Ddisgyblion

Cofiwch edrych yn rheolaidd ar Ap Rhieni SIMS a dilynwch ni ar 'Drydar' i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyfathrebu a gweld ein gwaith a'n gweithgareddau. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, p'un a yw'n addysgiadol neu'n fugeiliol, peidiwch ag oedi cyn e-bostio swyddfa'r ysgol ar admin.broogwr@bridgend.gov.uk

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Cofion cynnes
Sharon Jayne
Pennaeth